

**REPORT OF THE HEAD OF BUSINESS MANAGEMENT**

---

**SUBJECT: WALES AUDIT OFFICE - PRELIMINARY CORPORATE ASSESSMENT**

Introduction

The Wales Audit Office undertakes an Annual Corporate Assessment of the Authority. This year the Assessment takes the form of the *Improvement Assessment: Including the Corporate Assessment Update Letter*. A presentation on this letter was made by Mr John Roberts from Wales Audit Office to the Audit and Corporate Services Review Committee which met on 3<sup>rd</sup> August.

A copy of the Assessment letter is provided for Members.

**Recommendation: Members are asked to RECEIVE this report**

*(For further information contact Alan Hare – Head of Business Management on ext 4810)*





24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 20 320500  
Fax / Ffacs: 029 20 320600  
Email / Ebst: [wales@wao.gov.uk](mailto:wales@wao.gov.uk)  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Prif Weithredwr  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Parc Llanion  
Doc Penfro  
Sir Benfro  
SA72 6DY

Dyddiad 22 Gorffennaf 2011  
Ein cyfeirnod 381A2011  
Eich cyfeirnod  
Rhif Ffôn  
E-bost  
Tudalen 1 o 9

Annwyl Tegryn

### **Asesiad Gwella: Yn cynnwys Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol**

Fel yr eglurais yn fy llythyr ymgynghori ar Asesiad Gwella eleni rwyf yn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn y llythyr hwn i'r Awdurdod. Fel sy'n ofynnol, caiff y llythyr hwn ei anfon at Weinidogion Cymru hefyd.

Yn ystod y flwyddyn drosiannol rhoddwyd blaenoriaeth i sefydlu llinell sylfaen gyffredinol a oedd, lle y bo'n briodol, yn cynnwys barn arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, ac y gallem ei defnyddio i asesu trefniadau gwella mewn modd mwy cywir a chymesur ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ar ôl sefydlu'r llinell sylfaen honno, ni fydd angen asesiad corfforaethol cynhwysfawr yn y rhan fwyaf o awdurdodau parciau cenedlaethol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Eleni, mae fy llythyr yn crynhoi:

- cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'i ddyletswyddau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn asesiad 2010;
- sylwebaeth fer ar unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
- diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

## Trefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus

**Mae'r Awdurdod yn bwrw ati â'r agenda gwella, gyda newidiadau i strwythur pwyllgorau, setliad ariannol gwell na'r disgwyl a gwelliannau i drefniadau rheoli perfformiad oll yn cyfrannu at wella'r rhagolygon ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod**

Mae amcanion gwella'r Awdurdod a'i gynllun gwella (sef *Strategaeth Gorfforaethol 2011-14*) yn bodloni gofynion y Mesur. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle nad oes cysylltiad rhwng yr amcanion gwella a'r mesurau llwyddiant, y camau gweithredu a'r dangosyddion perfformiad perthnasol a nodir yn ei gynllun gwella. Mae'r materion hyn, ynghyd â'r ffaith bod angen i'r Awdurdod gasglu rhywfaint o ddata llinell sylfaen, yn tanseilio gallu'r Awdurdod i fonitro cynnydd.

**Rwy'n fodlon bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon**

Deuthum i'r casgliad hwn am fod fy ngwaith archwilio ac asesu, hyd yma, wedi canfod y canlynol:

- roedd ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn golygu na allai'r prif weithredwr fwrw ati â'i agenda gwella mor gyflym ag yr oedd wedi gobeithio gwneud, ond mae'r newidiadau a gyflwynwyd ganddo a'r setliad ariannol gwell na'r disgwyl wedi llwyddo i roi sail gadarn i'r Awdurdod gyflawni gwelliannau pellach;
- mae gwelliannau i system arfarnu staff yr Awdurdod a'r cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer canlyniadau sydd wedi'u cysylltu â chanlyniadau strategol yn atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod;
- mae newidiadau i strwythur pwyllgorau'r Awdurdod, ynghyd â'r rhan weithgar y mae'n ei chwarae mewn Prosiect Craffu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig potensial gwirioneddol i ddarparu trosolwg a phroses craffu ar berfformiad sy'n fwy penodol a heriol.

## Cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn asesiad 2010

Yn ôl yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, 'gweithiodd yr Awdurdod yn ddygn i fynd i'r afael â gwendidau; mae'n dangos rhai cryfderau yn y ffordd y mae'n gweithio; ac er bod ei drefniadau yn ddiffygiol o hyd o ran rhai pethau, mae arweinyddiaeth newydd yn darparu cyfle i'w gwella'. Nododd yr adroddiad nifer o feysydd i'w gwella a nododd hefyd rai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn ei grynhoi isod a'i ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1:

- Gwnaed cynnydd calonogol o ran adolygu, diweddarau a mabwysiadu polisïau newydd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â strategaeth rheoli pobl newydd yr Awdurdod a'i ddull o reoli perfformiad ei staff. Fodd bynnag, nid yw strategaethau na pholisïau eraill wedi'u diweddarau o hyd. Bydd ymarfer mapio sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn helpu'r Awdurdod a'i staff i nodi'n glir sut mae'r polisïau a'r strategaethau hyn yn cydweddu, pa fylchau sy'n bodoli o hyd a pha rhai y mae angen eu hadolygu.
- Mae'r cysylltiadau rhwng trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig yr Awdurdod a'i amcanion a'i flaenoriaethau gwella bellach yn llawer mwy amlwg. Fodd bynnag, yr her a wynebwr gan yr Awdurdod yw cyflawni ei flaenoriaethau ei hun a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn ei strategaeth ariannol gyffredinol.
- Er y bydd rhywfaint o ddata sylfaenol a thargedau coll yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod i reoli perfformiad, mae'r Awdurdod eisoes yn mynd i'r afael â'r materion hyn, a bydd ei ffocws cynyddol ar gasglu mwy o ddata defnyddiol yn fwyfwy defnyddiol yn yr hirdymor.

Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

### **Materion sy'n dod i'r amlwg**

Y llynedd daeth nifer o feysydd cyffredin i'w gwella ymhellach i'r amlwg o ganlyniad i'm hasesiadau gwella ledled Cymru. Caiff canfyddiadau am gynnydd yr Awdurdod mewn rhai o'r meysydd hyn, ynghyd ag unrhyw faterion eraill sy'n dod i'r amlwg a nodwyd, eu crynhoi isod a rhoddir rhagor o fanylion ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

**Mae datblygiadau sylweddol yn null cynllunio ariannol tymor canolig yr Awdurdod wedi arwain at berchenogaeth o'r sefyllfa ariannol ym mhob rhan o'r Awdurdod ond mae pennu strategaeth ariannol tymor canolig fanwl sydd â chysylltiadau clir â blaenoriaethau'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru, yn dasg heriol**

Ceir dull clir o bennu blaenoriaethau drwy gyfres o weithdai aelodau. Trafodwyd y gyllideb a thybiaethau a rhagfynegiadau tymor canolig yng ngweithdy mis Rhagfyr 2010, a chytunwyd arnynt. Mae aelodau a swyddogion wedi meithrin dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa ariannol drwy'r gweithdai a'r fframwaith pennu a monitro cyllideb sydd ar waith.

Mae'r broses o bennu cyllideb wedi cadarnhau Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys rhagfynegiadau o ran lefelau ariannu ac mae'n ystyried arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn flaenorol. Nid oedd y setliad terfynol ar gyfer 2011-12 mor wael â'r amcanestyniadau cychwynnol ac mae'r Awdurdod yn bwriadu cadw gwariant o fewn yr incwm a ragwelir, wrth gynyddu ei gyllideb ariannol tair blynedd, gyda gostyngiad bach yn unig yn ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Yn gyffredinol, mae tua 60 y cant o'r gyllideb yn ymwneud â chostau staff, ac ail-ddyrannu rolau staff presennol yw'r brif ffordd o ymateb i newidiadau mewn blaenoriaethau. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o hyn, er enghraifft y bwriad i ganolbwyntio ar orfodi yn ystod 2011-12.

Er bod lle i benderfynu ar flaenoriaethau a meysydd i'w gwella yn lleol, a bod y rhain wedi eu pennu a bod cytundeb yn eu cylch ar gyfer 2011-12, mae angen i'r Awdurdod hefyd gydymffurfio â Llythyr Grant Strategol blynyddol Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn nodi ystod o flaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a bennir mewn trafodaeth â'r Awdurdod, ac y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn eu herbyn. Mae'r broses flynyddol hon yn peri rhai heriau i'r Awdurdod o ran cyfateb ei holl flaenoriaethau a'r meysydd i'w gwella i'w strategaeth ariannol tymor canolig.

**Er bod diffyg gwybodaeth integredig a system adrodd yn llesteirio gwasanaeth personél yr Awdurdod, mae'r strategaeth pobl sydd wedi'i diweddarau a'r cynllun gweithlu a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod y gweithlu mewn sefyllfa well i gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod**

Tua diwedd 2010 mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Pobl 15 mis newydd. Dewiswyd yr amserlen hon yn fwriadol gan nad oedd yr Awdurdod wedi cytuno ar ei ganlyniadau strategol newydd eto. Mae'r strategaeth 15 mis yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth personél, gosod sylfaen ar gyfer newidiadau staffio a meithrin cadernid a hyblygrwydd. Bydd y rhain yn sylfeini pwysig i'r Awdurdod wrth iddo gamu i'r dyfodol ansicr sy'n wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r strategaeth dros dro bresennol hefyd yn gyfle i ddatblygu strategaeth newydd yn llawn a all ganolbwyntio'n gliriach ar flaenoriaethau tymor hwy yr Awdurdod.

Mae lwfansau teithio, cyfnodau sabothol, oriau gwaith a chontractau dros dro i gyd yn enghreifftiau o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a gafodd eu hadolygu yn ddiweddar. Rhoddwyd cynllun diswyddo gwirfoddol ar waith yn llwyddiannus hefyd. Mae'r Awdurdod wedi llunio cynllun gweithlu sy'n dadansoddi data am y gweithlu presennol, gan nodi risgiau a chamau lliniaru. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynrychioli cam cyntaf y broses o geisio trefnu'r gweithlu yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion y sefydliad a chyflawni ei flaenoriaethau, yn arbennig yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Fodd bynnag, mae system rheoli gwybodaeth y gwasanaeth personél yn dibynnu o hyd ar gofnodi a dadansoddi data â llaw, sy'n cymryd llawer o amser, yn enwedig gan mai dim ond un aelod o staff sydd gan y pennaeth personél i'w chefnogi. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn ystyried opsiynau ar gyfer caffael system rheoli gwybodaeth newydd.

**Mae newidiadau i strwythur pwyllgorau'r Awdurdod, ynghyd â'r rhan weithgar y mae'n ei chwarae mewn Prosiect Craffu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig potensial gwirioneddol i ddarparu trefniadau trosolwg a phroses craffu ar berfformiad sy'n fwy penodol a heriol**

Yn y gorffennol, roedd pob un o 18 aelod yr Awdurdod hefyd yn aelod o Bwyllgor Adolygu Perfformiad yr Awdurdod (PRC). Roedd hyn yn golygu bod yr Awdurdod llawn, i bob pwrpas, yn adolygu ei waith ei hun wrth adolygu gwaith y PRC. Gyda dim ond un PRC, roedd hefyd angen i bob aelod graffu ar ystod eang iawn o waith. Roedd y sefyllfa hon hefyd yn peri'r risg na allai aelodau feithrin dealltwriaeth ddigonol o feysydd gwaith penodol ac y byddai rhai aelodau yn teimlo nad oedd angen iddynt ymgysylltu'n llawn â'r eitemau o dan ystyriaeth ar yr agenda.

Ar ôl cynnal adolygiad o'i strwythur pwyllgorau, mae'r Awdurdod wedi sefydlu tri phwyllgor adolygu newydd yn lle'r PRC, gyda phob un yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar waith yr Awdurdod. Gyda chwe aelod ar bob un o'r pwyllgorau newydd hyn a'r gallu i gyfarfod yn amlach na'r PRC yn y gorffennol, mae'r dull gweithredu newydd hwn yn mynd i'r afael â'r gwendidau a'r risgiau a nodir uchod ac mae ganddo botensial sylweddol i'w gwneud yn haws i aelodau graffu ar berfformiad a'i adolygu.

Fel y nodais yn adroddiad yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol y llynedd, sefydlwyd yr Awdurdod, fel awdurdodau'r parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, yn y fath fodd fel bod trefniadau craffu mewnol effeithiol yn achosi problem wirioneddol; rhywbeth a gydnabuwyd gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y Mesur. Gyda'r nod o wella'r broses o gyflawni gwaith craffu mewn awdurdodau parciau cenedlaethol, cyflwynodd yr Awdurdod gynrig llwyddiannus ar y cyd i Gronfa Graffu Llywodraeth Cymru. Mae'r Prosiect Craffu a sefydlwyd yn sgîl hynny wedi bod ar waith ers dechrau'r flwyddyn eleni, a bydd yn parhau dros y flwyddyn nesaf, gan roi cyfleoedd datblygu i aelodau ac ystyried methodolegau i wella gwaith craffu.

## **Mae gwelliannau i system arfarnu staff yr Awdurdod a'r cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer canlyniadau sydd wedi'u cysylltu â chanlyniadau strategol yn atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod**

Cafodd system arfarnu perfformiad yr Awdurdod ei hadolygu hefyd a bellach mae wedi'i chysylltu'n llawer cliriach â'i ganlyniadau strategol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw wedi creu diwylliant arfarnu perfformiad effeithiol yn y gorffennol, ac i gyd-fynd â chyflwyno system arfarnu perfformiad newydd, mae wedi galw ar wasanaethau Coleg Sir Benfro i gefnogi staff sy'n cynnal arfarniadau. Braff yw gweld hefyd fod yr amcanion a nodwyd ar gyfer y prif weithredwr o dan y system newydd hon wedi'u rhannu â staff.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod trywydd atebolrwydd clir o'r targedau a'r canlyniadau a nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol i gynlluniau adrannol yr Awdurdod ac i dargedau unigol. Gwneir hyn drwy gyflwyno cynllun canlyniadau, lle rhoddir cyfrifoldeb am bob canlyniad strategol i aelod o uwch dîm rheoli'r Awdurdod, nodir tasgau allweddol (ynghyd â dyddiadau targed) a phennir gofynion o ran cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â mesurau llwyddiant. Caiff y cynlluniau canlyniadau hyn eu cynnwys yn system meddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon.

Fodd bynnag, er bod cysylltiadau cryf â chanlyniadau strategol yr Awdurdod ym mhob un o'r agweddau hyn ar ei drefniadau rheoli perfformiad, mae'r cysylltiadau hyn yn llai amlwg o lawer ar gyfer amcanion gwella'r Awdurdod o dan y Mesur.

### **Cynigion pellach ar gyfer gwella**

Awgrymir cynnig newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn, fel a ganlyn.

Sicrhau bod amcanion gwella'r Awdurdod yn dilyn yr un trefniadau, neu drefniadau tebyg, o ran rheoli perfformiad â'r rhai sy'n gymwys i ganlyniadau strategol yr Awdurdod drwy, er enghraifft, sicrhau'r canlynol:

- bod Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod yn nodi'n glir pa fesurau llwyddiant, camau gweithredu a dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'i ganlyniadau strategol sydd hefyd yn gysylltiedig â'i amcanion gwella;
- bod cynlluniau canlyniadau newydd hefyd yn cwmpasu amcanion gwella'r Awdurdod;
- bod y ffurflenni arfarnu perfformiad yn cyfeirio at amcanion gwella'r Awdurdod, yn ogystal â'i amcanion strategol.

Byddwn yn parhau i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a wneir gan yr Awdurdod wrth weithredu'r cynigion a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.



**Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen**

Bydd fy Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddaf yn gofyn i'm Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant ystyried faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Y Cynghorydd J A Brinsden, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

John Roberts, Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru

Alan Morris, Cyfarwyddwr Grŵp Swyddfa Archwilio Cymru

**Atodiad 1**

Cynigion ar gyfer gwella	Cynnydd
<p>1. Yn ddi-oed, sicrhau bod holl bolisiau a strategaethau'r Awdurdod yn gyfoes, wedi'u cydgysylltu'n dda, a'u bod gyda'i gilydd yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae Strategaeth Pobl newydd wedi'i mabwysiadu;</li> <li>• mae nifer o bolisiau a gweithdrefnau naill ai wedi'u cyflwyno neu eu diweddarau;</li> <li>• mae polisiau a gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu neu eu hadolygu cyn i'r Awdurdod gytuno ar ei ganlyniadau strategol newydd yn cael eu diweddarau i adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol newydd yr Awdurdod;</li> <li>• mae ymarfer i fapio'r polisiau a'r gweithdrefnau presennol yn mynd rhagddo.</li> </ul>
<p>2. Sicrhau bod trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r Awdurdod, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae datblygiadau sylweddol o ran trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig yn dangos perchenogaeth o'r sefyllfa ariannol ym mhob rhan o'r Awdurdod.</li> <li>• Ceir dull clir o bennu blaenoriaethau ac amcanion gwella drwy gyfres o weithdai i aelodau. Trafodwyd y gyllideb a thybiaethau a rhagfynegiadau ariannol tymor canolig yng ngweithdy mis Rhagfyr 2010, a chytunwyd arnynt.</li> <li>• Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddatblygu i gwmpasu'r cyfnod o 2011-2012 i 2013-14. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys rhagfynegiadau o ran lefelau ariannu ac mae'n ystyried arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn flaenorol.</li> <li>• Mae pennu strategaeth ariannol tymor canolig fanwl sydd â chysylltiadau clir â blaenoriaethau ac amcanion gwella'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru yn dasg heriol.</li> </ul>

Cynigion ar gyfer gwella	Cynnydd
<p><b>3.</b> Gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata i reoli perfformiad, gan sicrhau yn arbennig fwy o ffocws ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu a, lle bynnag y bo'n bosibl, ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• data sylfaenol er mwyn mesur cynnydd;</li> <li>• targedau sy'n nodi'r hyn sydd i'w gyflawni;</li> <li>• asesiadau o'r gwahaniaeth y mae camau gweithredu a gwblhawyd wedi'i wneud;</li> <li>• asesiadau o effaith methu â chwblhau cam gweithredu arfaethedig;</li> <li>• data sy'n canolbwyntio ar amcanion corfforaethol yr Awdurdod;</li> <li>• data y gellir ei gymharu â sefydliadau eraill tebyg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae Strategaeth Gorfforaethol newydd yr Awdurdod yn canolbwyntio llawer mwy ar ganlyniadau ac mae'n ymgorffori mesurau llwyddiant mwy ystyrion na'r rheini a ddefnyddiwyd yn y gorffennol;</li> <li>• mae'r data a gesglir bellach yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- nifer yr ymwelwyr a'u gwariant;</li> <li>- y defnydd o ynni ar bob safle;</li> <li>- y defnydd o fideo-gynadledda;</li> <li>- y defnydd o lwybrau troed a'u hansawdd.</li> </ul> </li> <li>• er bod cysylltiad llawer cliriach bellach rhwng y data i'w gasglu â chanlyniadau strategol yr Awdurdod, nid yw'r cysylltiad ag amcanion gwella'r Awdurdod mor amlwg;</li> <li>• bydd y gwaith o gyflwyno mesurau newydd o lwyddiant yn golygu na fydd data sylfaenol ar gael i ddechrau mewn llawer o feysydd;</li> <li>• lle nad oes data sylfaenol ar gael, nid yw wedi bod yn bosibl i'r Awdurdod bennu targedau;</li> <li>• Mwy o rannu data gydag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru drwy gyfleuster meddalwedd rheoli perfformiad a gwybodaeth Ffynnon;</li> <li>• mae gan y strwythur pwyllgorau newydd y potensial i ganolbwyntio'n llawer cliriach a mwy llwyddiannus ar faterion perthnasol, gan sicrhau bod y gwaith craffu yn fwy effeithiol.</li> </ul>